

Jake Morgan  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Neuadd y Sir  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1JP

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Jake Morgan,

## **Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Caerfyrddin wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol mewn llawer o achosion o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn, mis Mai a mis Mehefin 2019
- gweithgareddau â ffocws mewn gwasanaethau plant, 15 a 16 Awst 2019
- Arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac AGC o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol Llanelli, 3 a 4 Rhagfyr 2019
- ymgysylltu â Gweithio Gyda'n Gilydd: Grŵp Rhieni a Gofalwyr, 11 Mawrth 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

#### **Llesiant**

Nododd arolygiad AGC o wasanaethau oedolion hŷn fod ymarferwyr, rheolwyr, partneriaid a staff o adrannau eraill yn yr awdurdod lleol wedi cyfleu newid diwylliant o ganlyniad i Ddeddf 2014. Mae hyn wedi arwain at ffocws cyffredin ar fynd i'r afael â llesiant pobl. Gwelsom ddealltwriaeth gyffredin rhwng asiantaethau allweddol, yn arbennig rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu. Golyga hyn y gall pobl fod yn hyderus bod grŵp amlasiantaeth yn ystyried eu diogelwch a'u llesiant yn drylwyr. Nododd y ddau arolygiad a gynhaliwyd yn 2019 fod cysylltiadau a chyfathrebu da rhwng rheolwyr y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, gyda throsolwg da o'r gwasanaeth a ddarperir gan y ddau awdurdod. Roedd y staff yn teimlo'n gadarnhaol am eu profiad o weithio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Roeddent yn canmol eu cydweithwyr a'u rheolwyr tîm, ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Nododd yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol fod cysylltiadau da â thîm diogelu canolog yr awdurdod lleol a bod polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i'r staff eu dilyn. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd am hyfforddiant yn cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant, ac roeddent yn gallu disgrifio'r broses adrodd.

Nododd y gweithgareddau â ffocws, a gynhaliwyd mewn gwasanaethau plant mewn perthynas â threfniadau diogelu ar gyfer plant sy'n wynebu achosion o gamfanteisio rhywiol, fod proses asesu risg amlasiantaethol ar waith ar gyfer achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a bod y staff yn ei deall. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill drwy broses asesu risg a bod cynnydd yn cael ei ystyried yn ofalus er budd plant sy'n agored i niwed.

#### **Pobl**

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd pobl wrthym yn rheolaidd eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a oedd wedi'u helpu. Drwy adolygu cofnodion gofal a chymorth a siarad â phobl a oedd yn cael gwasanaethau roeddem yn fodlon bod barn pobl yn cael ei hystyried. Pan nad oedd gan bobl y galluedd i ddeall materion a oedd o bwys iddynt, gwelsom fod y

gweithwyr cymdeithasol yn darparu asesiadau cadarn a oedd yn cyfleu sefyllfa'r unigolyn yn gywir. Ar y cyfan, roedd defnyddwyr y gwasanaeth a gymerodd ran yn y broses o arolygu'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn gadarnhaol am y gwasanaethau a gawsant. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys yn y dewisiadau a roddwyd iddynt.

Dywedodd rhieni a gofalmwr plant anabl wrthym fod ganddynt lais, a bod pobl yn gwrando arnynt drwy'r grŵp Gweithio Gyda'n Gilydd a'r digwyddiadau a gynhaliwyd. Gwnaethant ddweud eu bod yn cydnabod y dull gweithredu agored a thryloyw a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn eu helpu i gyfathrebu a deall cynlluniau a gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd rhai rhieni'n gwerthfawrogi cael eu cynnwys yn y broses o recriwtio staff. Dywedodd rhieni wrthym fod pob un ohonynt yn ymwybodol o daliadau uniongyrchol, ond bod adnabod cynorthwydd personol yn her.

Mae gan yr awdurdod lleol dimau rheoli sefydlog ym mhob rhan o'r adran gwasanaethau cymdeithasol; penodwyd prif weithredwr newydd ar ddiwedd 2019. Mae'r broses o recriwtio staff wedi bod yn her eleni – mae pryderon bod llai a llai o staff cymdeithasol ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod y cymorth gan reolwyr llinell gwasanaethau plant ac oedolion yn dda ar bob lefel. Roedd y staff gwasanaethau plant yn cydnabod manteision y cyfarfodydd 'Pod', a ddefnyddir gan wasanaethau plant, gan eu bod yn rhoi cyfle i gyd-feddwl drwy amgylchiadau teuluol cymhleth. Mae seicolegwyr yn darparu cymorth ategol i'r podiau. Mae hyn yn bwysig wrth ddarparu her gefnogol o ddisgyblaeth sy'n wahanol i waith cymdeithasol. Mae gwaith myfyriol o'r fath, sy'n mabwysiadu model ymarfer seiliedig ar gryfderau, a sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth y grŵp rheoli, yn ffactorau sy'n cyfrannu at y ffaith mai'r awdurdod lleol sydd â'r gyfradd isaf o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth yng Nghymru. Roedd y staff yn teimlo'n gadarnhaol am eu profiad o weithio yn yr awdurdod lleol. Roeddent yn canmol eu cydweithwyr a'u rheolwyr tîm, ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae gan yr awdurdod lleol fwrdd ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n gweithio ar draws y meysydd gofal cymdeithasol a thai. Mae gan yr uwch-reolwr sy'n arwain gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg gynlluniau i adfywio'r bwrdd sy'n gweithio yn unol â chynllun gweithredu. Caiff y Cynnig Rhagweithiol ei hyrwyddo yn yr awdurdod lleol ac mae cyfran dda o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Nododd arolygiad AGC fod pobl yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg. Dywedodd rhai aelodau o staff fod hwn yn rheswm dros weithio yn yr awdurdod lleol. Gwelsom dystiolaeth bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg cymaint â phosibl er mwyn galluogi pobl i gael eu cefnogi yn eu dewis iaith.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law

Mae'r cyngor yn nodi bod y galw yn broblem o hyd ac mae sgrinio yn bwysig. Mae'r ôl-groniad wedi haneru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Caiff hyn ei reoli gan ddau swyddog penodedig yn y tîm diogelu ac mae'n sicrhau bod modd ymateb i sefyllfaoedd brys. Mae mwy na 30 o weithwyr cymdeithasol wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar i gyflawni Asesiadau Budd Pennaf, ond mae swyddi gwag yn her ychwanegol.

## Atal

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn hyrwyddo gweithio rhyngddisgyblaethol i gefnogi annibyniaeth pobl. Mae'r awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cydweithio i ddatblygu a buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n ymateb i iechyd gwael aciwt. Mae gwasanaeth Tocals yn enghraifft o weithio effeithiol rhwng disgyblaethau er mwyn cefnogi annibyniaeth pobl a'u llesiant. Mae dulliau ataliol eraill, megis cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol Meddygon teulu, rhagnodwyr cymdeithasol, cymunedau sy'n ystyriol o ddementia a'r cynllun Bywydau Bodlon yn dangos ymrwymiad i waith atal yn Sir Caerfyrddin. Mae gwaith gwerthuso Cyngor Sir Caerfyrddin yn dangos bod y rhain yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ar gam cynharach ac yn atal anghenion rhag dwysáu.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Ni chafodd AGC ymateb mewn perthynas â'r argymhelliad hwn a gofynnir i'r awdurdod lleol ymateb i'r cais hwn am wybodaeth.

## Partneriaethau

O ran gwasanaethau oedolion hŷn, gwelsom fod uwch-reolwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu arweinyddiaeth dda, a bod rhaglenni ar waith ar gyfer atgyfnerthu cymunedau. Roedd enghreifftiau o bartneriaethau amlasiantaeth lleol a rhanbarthol er mwyn rhoi cyfarwyddyd strategol i gysoni ymarfer a symleiddio'r broses o ddefnyddio adnoddau.

Gwelsom fod ymatebion amlddisgyblaethol ac ymdeimlad cyffredin o ddiben yn cydweithio yn y grwpiau proffesiynol. Roedd hyn yn hwyluso ymatebion prydlon ac effeithiol ar adegau hanfodol i bobl. Gwelsom fod gwaith amlddisgyblaethol ataliol effeithiol ar lefelau gwahanol yn nodwedd amlwg drwy gydol ein gwaith maes arolygu.

Yn ystod yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, gwelsom fod dull amlddisgyblaethol ar waith ar gyfer asesu, cynllunio ac arolygu gofal, a bod defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses, lle y bo'n briodol. Gwelsom fod cysylltiadau a chyfathrebu da rhwng rheolwyr y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, gyda throsolwg da o'r gwasanaeth gan y ddau awdurdod. Roedd cysylltiadau agos rhwng y tîm ac asiantaethau trydydd sector, megis MIND. Roedd nifer o'r gwasanaethau hyn wedi'u hariannu ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Nododd ein gwaith gweithgareddau â ffocws mewn gwasanaethau plant fod partneriaid yn cyfrannu at brosesau diogelu a bod cyfathrebu da yn amlwg, yn enwedig rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y gwasanaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac roedd y staff yn rhoi llawer o sylw i'r gwasanaethau a oedd ar gael drwy'r gwasanaethau ieuencid ac yn cydnabod y gwaith ataliol a wnaed. Roedd cyfarfodydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaeth yn rhoi cyfle da i ystyried materion strategol a gweithredol.

### **Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar waith atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc. Archwilio Cymru, AGIC, Estyn